

# Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol Crynodeb o Ymgysylltiad Digidol

Tachwedd 2020

Ochr yn ochr â'r gwaith o gasglu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid ymgyrch ddigidol yn ystod tymor yr hydref. Amcan yr ymgyrch hon oedd cael syniad o ddealltwriaeth y cyhoedd, ynghyd â'u gwybodaeth a'u barn am ddatganoli cyllidol a threthi yng Nghymru.

Defnyddiwyd dull digidol i sicrhau y gallai'r Pwyllgor ymgysylltu â chynulleidfa sylweddol, gan sicrhau ar yr un pryd bod yr ymchwiliad yn hygyrch yn ystod cyfnod o newid cyfyngiadau Covid-19.

## Casglu data

Casglwyd y data yn y crynodeb hwn o gyfres o bolau piniwn ar Twitter a LinkedIn, a gynhaliwyd ar gyfrif Twitter Pwyllgor Cyllid y Senedd a chyfrif LinkedIn y Senedd. Roedd y polau piniwn yn cyfeirio'r gynulleidfa at arolwg lle gallent ddewis ymgysylltu'n fanylach pe dymument. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod yr ymarfer ymgysylltu hwn yn gyfyngedig o ran cwmpas gan

mai sampl hunanddewis, heb ei seilio ar sampl gynrychioliadol o'r boblogaeth a ddefnyddiwyd.

Mae'r crynodeb yma yn amlinellu'r themâu allweddol a godwyd o'r cwestiynau meintiol ac ansoddol. Cynhaliwyd dadansoddiad o set ddata gyflawn; gellir priodoli'r holl ddata i ymatebion unigol a gellir dadansoddi'r data ymhellach drwy adolygu'r canlyniadau terfynol.

Mae cyfanswm y bobl sydd wedi cyfrannu at y data hwn yn cynnwys **2,524** o bleidleisiau o'r holl bolau piniwn a **692** o ymatebion i'r arolwg.

Mae'r crynodeb hwn yn dangos y drafodaeth gyda'r cyhoedd ynghylch, **datblygu pwerau cyllidol, pwerau benthyca ac ailfeddwl am dreth incwm.**

Arweiniodd y dull hwn at godi pedwar mater allweddol arall yn deillio o themâu cyffredin. Dewiswyd dyfyniadau ar y sail eu bod yn dangos themâu sy'n codi dro ar ôl tro ac, felly, yn crynhoi'r sylwadau cyffredinol o'r ymatebion. Daw'r holl ddyfyniadau yn eu hiaith wreiddiol gan ymatebwyr yr arolwg neu sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol, ac nid ydynt wedi cael eu priodoli.

## Sampl data

Dyluniwyd yr arolwg, a oedd ar agor rhwng 20 Medi a 4 Tachwedd 2020, i'r cyhoedd fynegi eu barn ar Ddatganoli Cyllidol – gan gynnwys y Fframwaith Cyllidol, sef y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar drethi Cymru a'r pwerau benthyca sydd wedi'u datganoli i Gymru.

Cwblhaodd **692** o ymatebwyr yr arolwg. Y gyfradd gwblhau oedd 80%.

Roedd ymatebwyr yr arolwg yn hanu o bob rhan o Gymru gyda chynrychiolwyr o bob un o bum rhanbarth y Senedd. Roedd nifer yr ymatebwyr o bob sir rhwng 11-94 o bobl. Caerdydd oedd y lle y daeth y nifer fwyaf o bobl ohono, ac yna Rhondda Cynon Taf, Conwy, Gwynedd a Phowys.

Roedd 34% o'r ymatebwyr eisiau derbyn diweddariadau am yr ymchwiliad. Chwe munud oedd cyfartaledd yr amser ar gyfer cwblhau'r arolwg.

Defnyddiwyd hysbysebu ar Facebook i annog dinasyddion sy'n byw ger ffin Cymru/Lloegr i gyfrannu. Dywedodd 12% o'r ymatebwyr eu bod yn byw o fewn 10 milltir i'r ffin.

Ochr yn ochr â'r arolwg, postiwyd wyth pŵl piniwn ar Twitter a LinkedIn. Gellir gweld set gynhwysfawr o'r canlyniadau pleidleisio yn Atodiad 1.

## Gwybodaeth, ymwybyddiaeth a phwysigrwydd Datganoli Cyllidol

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg ddweud pa rai o'r trethi yn y rhestr isod yr oeddent yn credu bod gan Lywodraeth Cymru reolaeth drostynt.

<b>Math o Dreth (a phwy sy'n ei rheoli):</b>	<b>% yr ymatebwyr a oedd yn gywir</b>
Treth Etifeddiant (Llywodraeth y DU)	93%
Toll Teithwyr Awyr (Llywodraeth y DU)	81%
Cyfraddau Treth Incwm Cymru - WRIT (Llywodraeth Cymru)	62%
Ardrethi Annomestig (Llywodraeth Cymru)	50%
Treth Trafodiadau Tir (Llywodraeth Cymru)	49%
Treth Gwarediadau Tirlenwi (Llywodraeth Cymru)	48%
Y Dreth Gyngor (Awdurdodau Lleol yng Nghymru)	31%
<b>Canlyniad cyfartalog yr ymatebwyr a gwblhaodd y cwis</b>	<b>57%</b>

Roedd dros hanner yr ymatebwyr ddim yn ymwybodol bod Ardrethi Annomestig (neu a elwir weithiau'n Ardrethi Busnes), Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi yn cael eu rheoli gan Lywodraeth Cymru. O edrych ar y rhai a ddywedodd eu bod yn talu'r trethi hyn yn rheolaidd neu eu bod wedi gwneud yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, a'r bobl hynny yn unig, fel y gellid ei ddisgwyl mae canran y rhai a oedd yn gywir yn cynyddu cryn dipyn; Treth Gwarediadau Tirlenwi i 71%, Ardrethi Annomestig i 65% a Threth Trafodiadau Tir i 75%.

Wrth ystyried y canlyniadau ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru (WRIT) a'r dreth gyngor, y dywedodd 73% o ymatebwyr yr arolwg eu bod yn eu talu'n rheolaidd, mae'n ymddangos yn deg dweud y gallai fod diffyg gwybodaeth am bwy sy'n rheoli'r trethi craidd hyn - roedd 38% o ymatebwyr yr arolwg heb sylweddoli bod Llywodraeth Cymru yn rheoli Cyfraddau Treth Incwm Cymru, ac roedd 69% nad oeddent yn sylweddoli bod y dreth gyngor yn cael ei rheoli gan eu hawdurdod lleol. Roedd rhai pobl yn ymddangos mewn dipyn o sioc o ddysgu hynny am y trethi;

“It should state clearly in payslips the tax that is paid as Welsh tax”

“I wasn't aware of this. I have lived on Wales for 2.5 years. Is this applied automatically by HMRC?”

“I don't think all the people of Wales fully know and understand the role and power of the Welsh Government and how our actual tax is spent”

Wrth ateb cwestiynau'r polau piniwn ar-lein ar y cyfryngau cymdeithasol, gwnaeth ymatebwyr y polau piniwn yn gymharol dda wrth ateb pa Lywodraeth sy'n gosod trethi penodol.

Roedd **93%** o'r ymatebwyr yn gwybod mai Llywodraeth y DU sy'n gosod Treth ar Werth (TAW) ar eitemau defnyddwyr.

Roedd **78%** o'r ymatebwyr yn gwybod mai Llywodraeth y DU sy'n gosod Toll Teithwyr Awyr.

Fodd bynnag, nid oedd **24%** o'r ymatebwyr yn gwybod mai Llywodraeth Cymru sy'n gosod Treth Trafodiadau Tir.

O ran Cyfraddau Treth Incwm Cymru, roedd **57%** o'r ymatebwyr yn gwybod bod Llywodraeth Cymru yn rheoli 'rhywfaint' ar gyfraddau treth incwm.

Roedd **62%** o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn gallu amrywio cyfraddau treth incwm a delir gan drethdalwyr Cymru. At hynny, atebodd **66%** o'r ymatebwyr yn gywir fod 10 ceiniog ym mhob £1 o'r dreth incwm yn mynd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Roedd ymatebwyr yr arolwg yn glir iawn ei bod yn bwysig iddyn nhw fod gan Lywodraeth Cymru bwerau dros drethi. O'r 568 o ymatebwyr a atebodd gwestiwn ar y pwnc hwn:

Dywedodd 72% o bobl ei bod yn bwysig neu'n bwysig iawn bod gan Lywodraeth Cymru bwerau dros drethiant:

"I think our taxes should be put towards Wales only and, hopefully, our government will have increased taxation powers. Keep improving Wales and the lives of all who live here"

## Barn ar Ddatganoli Cyllidol

### Datblygu pwerau cyllidol

#### Treth Trafodiadau Tir

Pan ofynnwyd a fyddai'r amrywiad rhwng Treth Trafodiadau Tir (yng Nghymru) a Threth Dir y Dreth Stamp (yn Lloegr) yn effeithio ar benderfyniad ymatebwyr yr arolwg o ran lle y byddent yn dewis byw, dywedodd **25%** "Byddai", dywedodd **46%** "Na fyddai" a dwedodd **29%** nad oedd yn berthnasol iddyn nhw neu fe wnaethon nhw anwybyddu'r cwestiwn.

Dywedodd 70 o ymatebwyr yr arolwg eu bod yn byw o fewn 10 milltir i ffin Cymru/Lloegr. Ar gyfer y sampl ddata hon, atebodd **33%** "Ydw", atebodd **53%** "Nac ydw" ac atebodd **14%** nad oedd yn berthnasol iddyn nhw. Mae'n debyg y byddai'r agosrwydd at y ffin yn caniatáu mwy o hyblygrwydd pe byddent yn wynebu'r penderfyniad hwn.

Dywedodd 59 o ymatebwyr yr arolwg eu bod wedi talu Treth Trafodiadau Tir yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, neu eu bod yn ei thalu'n rheolaidd. Ar

gyfer y sampl ddata hon, dywedodd **39%** “Do”, dywedodd **47%** “Naddo” a dywedodd **14%** nad oedd yn berthnasol iddyn nhw.

## Mwy o bwerau trethiant i Lywodraeth Cymru

Atebodd 566 o ymatebwyr gwestiynau ynghylch rhoi mwy o bwerau i Lywodraeth Cymru dros drethi.

Dywedodd **61%** o'r ymatebwyr eu bod yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gael pŵer dros fwy o drethi.

Dywedodd ymatebwyr eu bod am i Lywodraeth Cymru gael rheolaeth dros ystod o drethi eraill gan ddadlau y byddai Cymru fel gwlad yn waeth heb hynny:

“I believe that Wales can only make meaningful changes in areas like health and the economy if it has greater taxation powers, because these areas are all inter-linked. I can't see how we can make robust, considered policy in areas like health, education, planning and the economy without increased taxation powers”

## Pwerau benthyca

Roedd cryn hollti barn ar y pwnc hwn. Ar hyn o bryd gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £1 biliwn gan naill ai Lywodraeth y DU, trwy fenthyciad masnachol gan fanc neu fenthycwyr eraill neu drwy fondiau'r Llywodraeth. Gellir defnyddio'r pŵer benthyca hwn i fuddsoddi yn seilwaith Cymru, er enghraifft i dalu am ysgolion neu ffyrdd. Gofynnwyd i ymatebwyr am bwerau benthyca Llywodraeth Cymru:

Dywedodd **54%** na ddylai Llywodraeth Cymru fod â therfyn ar y math hwn o fenthyca. Roedd **39%** yn gwrthwynebu'r syniad hwn a dywedodd **7%** nad oeddent yn gwybod.

Roedd y polau piniwn ar-lein yn dangos darlun ychydig yn wahanol; dywedodd **72%** o'r ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru allu benthyca mwy nag £1 biliwn.

Yn yr arolwg, rhesymeg y rhai a oedd yn teimlo na ddylai Llywodraeth Cymru fod â therfyn ar y math hwn o fenthycha oedd bod yr ymatebwyr yn teimlo y byddai gan y bobl sy'n llywodraethu Cymru well syniad am ba brosiectau seilwaith fyddai eu hangen yma a lle roedd yr angen:

*"The money presumably would not be lent if it could not be repaid. The decision as to whether it should be borrowed is entirely a Welsh affair"*

*"It will give the Welsh government more levers to react to crisis like the global pandemic. It can invest in infrastructure spending that could provide an overall boost for the economy"*

*"I feel as though a limit is incredibly restrictive, obviously, but prevents us from doing things we may need to do for the good of our people"*

*"Wales should not be as dependent on Westminster for funding through the Barnett formula esp after inadequate funding for train electrification to Swansea/tidal lagoon while massive funding for HS2 is supplied without any increase in money to Wales"*

*"Dylai Cymru fod mewn rheolaeth o wariant yng ngwlad ein hunan. Mae'r gallu i fenthyc yn hanfodol i alluogi Cymru i gyrraedd ei photensial er mwyn ariannu prosiectau hir dymor."*

*"If the Senedd sees it necessary to borrow more to improve the services and infrastructure here in Wales then it should be able to"*

Roedd yn ymddangos bod llawer o'r ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r syniad o bwerau benthycha cynyddol yn dangos eu bod yn teimlo'n anesmwyth ynghylch rhoi pwerau benthycha diderfyn i Lywodraeth Cymru:

*"Mi ddylai fod gyfyngiad, ond un sydd wedi cael ei osod gan Senedd Cymru nid gan San Steffan"*

*"The Welsh Parliament and an independent "taxpayer value for money" group should have a say on Welsh Government borrowing over a specified limit to ensure taxpayers are getting value for their loan repayments"*

*"I think as a nation it should have borrowing powers to a limit that would not put the country into financial trouble in the future, so it could be more than the £1B but not unrestricted"*

Codwyd materion eraill yn ymwneud â dosbarthu arian ychwanegol yn rhanbarthol, cymhwysedd i wario, yn ogystal â phryderon y gallai benthyca nawr gael effaith ar genedlaethau'r dyfodol:

*"I believe this money would only be spent to benefit Cardiff and South Wales, Very rarely would it be spent to benefit or improve life in Powys"*

*"Their failure to agree to proceed with the M4 relief road, is proof to me they do not possess the required skills to make the right major infrastructure decisions"*

*"I lack confidence in the elected parties so far to develop our country's economy sufficiently to ensure the running of a tax system that has community consent"*

*"The debt will increase and be passed on to the public"*

*"We should not gain our today's for our children's tomorrows"*

Esboniodd y rhai a ddywedodd nad oeddent yn gwybod eu bod yn teimlo nad ydynt yn ddigon cymwys i wneud y penderfyniadau hyn:

*"Finances are always complicated and I don't feel I have the knowledge to give a clear answer. I also feel it SHOULD NOT be down to people like me to make financial decisions of this magnitude. I'd like experts to be trustworthy and be in place to sort out this kind of thing"*

## Ailfeddwl am y dreth incwm

Pan ofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg a fyddent yn hapus i dalu mwy o dreth incwm yng Nghymru na'r rheini yn Lloegr pe bai'r dreth ychwanegol hon yn cael ei chasglu yng Nghymru a'i gwario ar wasanaethau Cymru:

Dywedodd **59%** "Byddwn yn fodlon talu mwy o dreth incwm yng Nghymru na'r rhai a delir yn Lloegr"



Dyweddodd **36%** “Ni fyddwn yn fodlon talu mwy nag yn Lloegr”

Dyweddodd **5%** nad oeddent yn gwybod.

Dyweddodd 70 o ymatebwyr yr arolwg eu bod yn byw o fewn 10 milltir i ffin Cymru/Lloegr. Ar gyfer y sampl ddata hon, dyweddodd **47%** “Ydw”, dyweddodd **43%** “Nac ydw” a dyweddodd **10%** nad oeddent yn gwybod.

Dyweddodd 68 o ymatebwyr yr arolwg eu bod wedi talu Treth Gwarediadau Tirlenwi ac Ardrethi Annomestig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, neu eu bod yn eu talu'n rheolaidd nawr. Gallem nodi'r sampl ddata hon fel perchnogion busnes cyfredol neu ddiweddar. Ar gyfer y sampl hon, dyweddodd **52%** “Ydw”, dyweddodd **42%** “Nac ydw” a dyweddodd **6%** nad oeddent yn gwybod.

Ar gyfer yr holl ymatebwyr a ddyweddodd y byddent yn hapus i dalu mwy o dreth, dwedasant pa wasanaethau yr hoffent weld yr arian ychwanegol yn cael ei ddyrannu iddynt. Nid oedd yn fawr o syndod bod iechyd ar frig y rhestr hon:

<b>Opsiynau:</b>	<b>Canran yr ymatebwyr a ddewisodd yr opsiwn hwn</b> - sylwer y gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn
<b>Gwasanaethau Iechyd</b>	<b>69%</b>
<b>Addysg</b>	<b>59%</b>
<b>Yr Economi a Thrafnidiaeth</b>	<b>55%</b>
<b>Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig</b>	<b>52%</b>
<b>Cynghorau a Thai</b>	<b>50%</b>

<b>Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol</b>	<b>41%</b>
<b>Arall</b>	<b>133 ymateb</b>

O'r ymatebwyr a ddewisodd *Arall* awgrymwyd bod arian ychwanegol yn mynd i wasanaethau gofal cymdeithasol, prosiectau seilwaith a'r system blismona a chyfiawnder yn enwedig i gefnogi cynlluniau adfer troseddwy'r ifanc.

*"Please be brave and have a national conversation about funding for social care and ensuring commissioners pay providers enough for higher wages. Social care wages are significantly below NHS wages and these structural issues cause harm"*

Fodd bynnag, o'r rhai nad oeddent am weld trethi'n cael eu codi, roeddent yn gryf o'r farn na ddylid cynyddu trethi gan ddweud y gallai hynny achosi iddynt adael Cymru hyd yn oed:

*"Don't raise taxes as this isn't favourable and people will leave"*

*"Wales has a long border with England and if the Welsh Government tax the affluent, they will vote with their feet by moving a few miles to the east"*

*"I will leave wales if I end up paying more tax then the rest of the UK"*

*"Whilst we live in Wales I do not think it appropriate that our taxes should be different to England"*

*"Please please please do not put taxes up in Wales people will leave"*

*"I worry that if the Welsh gov increases taxes, Westminster will use that as an excuse to reduce the Barnett formula money we receive"*

# Materion Allweddol Eraill

## Dosbarthu'r gwariant

Gwnaeth ymatebwyr yr arolwg sylwadau ar faterion yn ymwneud â dosbarthu arian yn deg ledled Cymru, yn enwedig i gefnogi seilwaith mewn ardaloedd gwledig.

*"I don't trust Cardiff to spend it in Mid Rural Wales, as 9 out of the last 10 years, Powys had had the lowest amount out of the County Councils, we get overlooked time after time"*

*"I think Wales must use its money well. North Wales is underfunded. All the money goes to South Wales!!!!"*

*"Unfortunately I live in the county that receives the lowest funding per capita for schools and my son attends the school that has the lowest funding per head. WA seems to think the M4 corridor should fund the rest of Wales"*

*"Too Cardiff and valleys centric and spending should be equally shared across all of Wales"*

*"I am happy to pay taxes in Wales if it benefits the whole of Wales and not just Cardiff, Swansea and Newport. More needs to be done for valleys communities"*

## Addysg ar bwerau datganoledig mewn perthynas â threth

Roedd galwadau am well addysg am drethi datganoledig. Credai rhai ymatebwyr fod yr holl drethi yn cael eu cymryd o Gymru ac yna'n cael eu 'rhoi' i Lywodraeth y DU gyda Chymru yn derbyn arian yn ôl disgrisiwn Llywodraeth y DU:

*"I think I would be happier if there was more transparency and less wastage [...] Better communication is needed so that people see they are getting value for money"*

*“Helping the public to understand more about devolved taxes should hopefully increase public awareness of the work of devolved institutions and why they should vote in Senedd elections”*

*“Welsh taxes should be used in Wales not to send over the border for them to decide what we can have back to spend”*

## **Ymddiriedaeth, tryloywder ac arloesedd**

Codwyd lefelau ymddiriedaeth yng ngwariant Llywodraeth Cymru a didwylledd ynghylch gwerth am arian sawl gwaith yn sylwadau'r ymatebwyr, a bu galwadau am arloesi ac ailfeddwl sut i newid trethi yn y dyfodol:

*“Transparency is key for trust and if there is any increase in taxes people will protest unless they see a tangible improvement as to where it is spent”*

*“I'd be happy to pay more tax, as would many in my work and social circles. Some people's agreement is qualified by, 'if I could see the benefit locally' - And so I think that participatory budgeting could have a key role to play in raising taxes in a way that is acceptable to a wider audience. This is already happening on a very small scale in Wales, including the town in which I live. The annual PB event here is very popular”*

*“Personally, I have never objected to paying my fair share of tax, in order to maintain and improve public services, however I am aware that others do not share this view. I think that any taxes raised in Wales for the benefit of Wales, need to be absolutely transparent, with a very clear trail of how they are used to benefit public services in Wales. The core of the problem though, is the lack of watertight tax regulation around large corporations and offshore investment”*

*“I'd encourage Welsh Government to investigate alternatives to the current Council Tax system, whether those are piecemeal changes to the banding system or something more radical”*

*“Regardless of how much money we raise in Wales through taxes, we should still receive money as 'top up' from UK Govt, as we are a poorer area of the UK. Although, Barnet should be reformed so that more money comes to Wales”*

*"We need to make a tax system that supports younger people (25 - 35) to get an education and to purchase a house. That currently feels like it's not an option to many younger people which is absolutely appalling"*

*"Ensure that big businesses pay their share"*

*"The charge for changing house or property names should be set at £25,000. Too many Welsh properties are being stripped of Welsh language names"*

*"Remove inheritance tax relief on all farm acreage over 250 acres, creating more opportunities for young farmers"*

Cynigiodd nifer o bobl y syniad o ddatblygu treth ar dwristiaid:

*"Bring in a tourism tax. They are common in many countries. Use revenue to protect the environment, mountains, beaches, rivers of Wales"*

*"Wales should introduce a city visitor tax along the lines of Italy, the money should be spend locally on street cleaning, etc. This should include all holiday lets whether caravans, airbnb, hotel rooms or other"*

*"I would suggest that all Welsh Councils charge normal C/Tax levels to their residents and charge other taxes for say a visitors tax as they do in Europe which would raise more money and this would be fair. Everyone who visited Wales as a non-householder, would pay the visitors tax"*

Cafwyd rhai sylwadau cyferbyniol ynghylch treth ar ail gartrefi:

*"More council tax on holiday homes, 500%. [...] Holiday homes drive up the price of housing, and hollow out communities, and prevent Welsh people getting on the housing ladder"*

*"I would argue that 300% council tax would be fair. Not only does second home ownership take houses away from local people it also harms the local hospitality and hotel markets. If you can afford the house you can afford the tax"*

*"The second home premium is a discriminating tax and should not be allowed"*

*“Council Tax for second home owners, currently at an extra 50%, is unfair. Second home owners spend fresh money helping local businesses and supporting local tradesmen”*

### **Haen arall o fiwrocratiaeth neu annibyniaeth lwyr?**

Cafwyd nifer fawr o sylwadau yn y data ynghylch a oedd angen yr hyn y mae rhai aelodau o'r cyhoedd yn teimlo sy'n ddim ond haen arall o fiwrocratiaeth. I'r gwrthwyneb i'r sylwadau hynny, roedd rhai pobl yn frwd dros Gymru annibynnol. Roedd y teimladau'n gymysg dros ben, ac roedd y sylwadau'n angerddol:

*“The Welsh Gov is not needed it is an expensive tier of Admin. That we shouldn't have to pay for”*

*“Many of us want less taxation and fewer tiers of government”*

*“Don't raise taxes to pay AMs. They're a waste of time. Leave government in Westminster”*

*“Taxes should be under Welsh Government control. It is absurd that what we can and can't do is decided by another government”*

*“Wales needs to be able to control its own finances to be able to invest in itself as a country. Taxes are an important part of that. If Wales was an independent country we wouldn't have to essentially beg London to be able to do this. It's about time Wales became a proper country”*

*“Dylai'r Senedd cael power dros pob treth yng Nghymru”*

## Atodiad 1 - Canlyniadau'r Pleidleisiau

Cynhaliwyd yr wyth pŵl piniwn canlynol ar Twitter a LinkedIn dros gyfnod o 24 awr. (Sylwer, lle mae'r canlyniad yn ymddangos fel sero, cynhaliwyd y bleidlais ond ni chafwyd dim atebion):

Cw. 1 A oeddech yn gwybod y gall Llywodraeth Cymru amrywio'r cyfraddau treth incwm sy'n cael eu talu gan drethdalwyr yng Nghymru?										
	LinkedIn Saesneg		Twitter Saesneg		LinkedIn Cymraeg		Twitter Cymraeg		Cyfanswm	
Oeddwn	65%	118	57%	91	66%	19	67%	14	242	<b>62%</b>
Nac oeddwn	35%	64	44%	70	34%	10	33%	7	151	<b>38%</b>
<b>Pleidleisiau</b>		182		161		29		21	393	

Cw. 2 Faint o reolaeth yr ydych yn meddwl bod gan Lywodraeth Cymru dros gyfraddau treth incwm yng Nghymru?										
	LinkedIn Saesneg		Twitter Saesneg		LinkedIn Cymraeg		Twitter Cymraeg		Cyfanswm	
Y cyfan	24%	29	14%	39	11%	3	11%	6	77	<b>16%</b>
Ychydig	60%	72	53%	141	75%	21	66%	35	269	<b>57%</b>
Dim	16%	20	33%	88	14%	4	23%	12	124	<b>26%</b>
<b>Pleidleisiau</b>		121		268		28		53	393	

Cw. 3 Pan fyddwch yn gwneud eich siopa, mae rhywfaint o'r swm rydych yn ei dalu yn TAW (Treth ar Werth). Yn eich barn chi, pwy sy'n pennu'r dreth hon?										
	LinkedIn Saesneg		Twitter Saesneg		LinkedIn Cymraeg		Twitter Cymraeg		Cyfanswm	
Llyw y DU	93%	164	94%	127	92%	24	0%	0	315	<b>93%</b>
Llyw Cym	7%	12	5%	7	8%	2	0%	0	21	<b>6%</b>
Manwerthwyr	0	0	1%	1	0	0	0	0	1	<b>1%</b>
<b>Pleidleisiau</b>		176		135		26		0	337	

**Cw. 4**

**Pan fyddwch yn prynu tŷ yng Nghymru sy'n mynd dros bris penodol, byddwch yn talu rhywbeth o'r enw treth trafodiadau tir. Yn eich barn chi, pwy sy'n pennu'r dreth hon?**

	LinkedIn Saesneg		Twitter Saesneg		LinkedIn Cymraeg		Twitter Cymraeg		Cyfanswm	
<b>Llyw y DU</b>	23%	26	23.9%	44	6%	1	16.6%	3	74	<b>22%</b>
<b>Llyw Cym</b>	76%	87	73.9%	136	94%	15	77.9%	14	252	<b>76%</b>
<b>Cynghorau lleol</b>	2%	2	2.2%	4	0%	0	5.5%	1	7	<b>2%</b>
<b>Pleidleisiau</b>		115		184		16		18	333	

**Cw. 5**

**Pan fyddwch yn hedfan ar wyliau y tu allan i'r DU, byddwch yn talu treth o'r enw toll teithwyr awyr. Yn eich barn chi, pwy sy'n pennu'r dreth hon?**

	LinkedIn Saesneg		Twitter Saesneg		LinkedIn Cymraeg		Twitter Cymraeg		Cyfanswm	
<b>Llyw y DU</b>	78%	73	78.3%	119	79%	11	75%	18	221	<b>78%</b>
<b>Llyw Cym</b>	15%	14	13.2%	20	14%	2	25%	6	42	<b>15%</b>
<b>Cwmnïau hedfan</b>	7%	7	8.6%	13	1%	1	0%	0	21	<b>7%</b>
<b>Pleidleisiau</b>		94		152		14		24	284	

**Cw. 6**

**Faint o'r arian y mae Llywodraeth Cymru yn ei godi drwy drethi y byddech yn disgwyl ei fod yn mynd i wasanaethau fel ysgolion, ysbytai a thrafnidiaeth gyhoeddus?**

	LinkedIn Saesneg		Twitter Saesneg		LinkedIn Cymraeg		Twitter Cymraeg		Cyfanswm	
<b>Y cyfan</b>	47%	17	53.8%	64	43%	3	55.5%	5	89	<b>52%</b>
<b>Ychydig</b>	50%	18	45.4%	54	57%	4	44.5%	4	80	<b>47%</b>
<b>Dim</b>	3%	1	0.8%	1	0%	0	0%	0	2	<b>1%</b>
<b>Pleidleisiau</b>		36		119		7		9	171	



**Cw. 7**

Mae ychydig o'ch treth incwm yn mynd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Faint o bob £1 ydych chi'n meddwl y maent yn ei gael gan y trethdalwr?

	LinkedIn Saesneg		Twitter Saesneg		LinkedIn Cymraeg		Twitter Cymraeg		Cyfanswm	
<b>10c</b>	64%	77	68.1%	79	100%	7	58.4%	7	170	<b>66%</b>
<b>20c</b>	30%	36	23.3%	27	0	0	33.3%	4	67	<b>26%</b>
<b>50c</b>	6%	7	8.6%	10	0	0	8.3%	1	18	<b>7%</b>
<b>Pleidleisiau</b>		120		116		7		12	255	

**Cw. 8**

Gall Llywodraeth Cymru fenthylg hyd at £1 biliwn gan Lywodraeth y DU neu drwy fenthylciad masnachol i'w fuddsoddi yn seilwaith Cymru. A ydych chi'n meddwl y dylai'r swm hyn:

	LinkedIn Saesneg		Twitter Saesneg		LinkedIn Cymraeg		Twitter Cymraeg		Cyfanswm	
<b>Gynyddu</b>	71%	29	70.7%	150	83%	5	86.4%	19	203	<b>72%</b>
<b>Aros yr un peth</b>	24%	10	16.6%	35	17%	1	9.1%	2	48	<b>17%</b>
<b>Leihau</b>	5%	2	12.7%	27	0%	0	4.5%	1	30	<b>11%</b>
<b>Pleidleisiau</b>		41		212		6		22	281	